## PENWYTHNOS YN RHYD-DDU GYDA CHLWB MYNYDDA CYMRU.

Tachwedd 16 - 18.

Sad. 17. Taith i ben yr WYDDFA.

Er nad oedd fawr neb yn barod i ymrwymo'i hun i'r daith 'galed' a'r codi cynnar a awgrymai Iolo nos Wener, fore Sadwrn roedd criw bach golew ohonom wedi casglu ynghyd a'n hwynebau tua'r Wyddfa. Penderfynwyd cyn gadael libart yr ysgol fod angen yr holl gêr glaw amdanom, ac ynddynt y buom am weddill y daith. Yna, i ffwrdd a'r deg ohonom am y maes parcio, a llwybr yr Wyddfa - pawb a'i gaib rew - rhag ofn. Dilynwyd y ffordd garegog/fwdlyd hyd Fwlch Cwm Llan, ac erbyn cyrraedd yno 'roeddem yn ddeuddeg, gan fod dau ymwelydd am y dydd wedi ymuno â ni.

O'r bwlch i lawr â ni am Gwm Llan am ychydig, yna cylchu pen Cwm Tregalan - lle digon

anghyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom. Yn anffodus nid oedd y niwl yn caniatau i ni weld llawer, ond pan gaem ambell gip edrychai'r ffrydiau a'r haenen denau o eira yn atdyniadol iawn. 'Roedd cerdded ar hytraws y llethr yn y eira tenau gwlyb gyda'r rhan anoddaf o'r daith. Mae'r siwr fod golwg digon anobeithiol arnom gan y troi Iolo'n ôl bob yn hyn a hyn gyda geiriau cysurlon fel 'Bron yna rwan' / 'Dim llawer o ffordd eto' ac ati. Erbyn hyn 'roedd wedi rhoi'r gorau i ddweud fod y tywydd yn siwr o wella gan fod y niwl yn tewchu a'r gwynt yn cryfhau po uchaf yr aem.

Erbyn cyrraedd llwybr Watcin 'roedd yr eira yn syndod o dew. Wedi trafodaeth sydyn penderfynwyd peidio â mynd i lawr y Gribin yn ôl y cynllun cyntaf, ac anelu yn syth am gopa'r Wyddfa. Penderfynodd pump o'r criw fynd i lawr y Watcin, ac aeth y saith arall tua'r copa. Â'r eira yn ddyfnach, a da oedd fod gan bawb gaib erbyn hyn. Efo Iolo yn arwain ar y blaen, a John (Evans) yn bygwth yn y cefn, llwyddodd pawb i gyrraedd y grib uwchben y Bwlch Main, er fod yr eira at y pennau gliniau ar adegau. Yna pum munud i'r copa, lle rhoi'r cwt gysgod derbyniol iawn tra y bwytaem ein 'cinio'! 'Roedd y Mwrchfeydd o'r cwmpas yn sylweddol ag ystyried mor fuan ar y flwyddyn ydoedd, a dechreuai crystyn caled ffurfio ar yr eira yn agos at y copa.

Ar ôl pasio ychydig sylwadau addas ar chwaeth arbennig y Bnr. Dei Jones wrth brynu bara ar gyfer y daith, a gresynu nad oedd gwylanod o gwmpas a allai werthfawrogi y brechdanau yn well na ni, 'roedd yr oerni yn dechrau gafael, a

thraeson yn ôl am Ryd'ddu dros y Bwlch Main a Llechog. 'Roedd y gwynt ar Llechog yn gryfach ac yn fwy trafferthus nag y bu drwy'r dydd.

Erbyn cyrraedd y giât yn ôl i'r lôn garegog 'roedd gweddill y criw ar y blaen i'r ddau arweinydd - Iolo a John. Dau digon 'tebol feddylien ni. Ond buan y'n dadrithiwyd pan ddaeth land-rofyr byddin ei mawrhydi i lawr y lôn a'r ddau arweinydd glew yn cael reid ar ei chefn. Diwrnod gwerth chweil er gwaetha'r tywydd ac oherwydd yr eira.